YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Rhyfeddodau Llundain a Chyrddau'r Gymdeithas.
Interview â Gwyr Blaenllaw'r Enwad.
Un o Gymry Llundain.
Hen Atgofion am Llwynrhydowen.
Mrs. Williams y Mans.
Tim (gyda Darlun).
Priodas.
Marwgofion. Nodion yr Eglwysi.



Cyf. L

Mai, 1950

Rhif 5

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—PRIFATHRO J. D. JONES, B.A., B.D.; PARCHN. S. E. BOWEN; D. EVANS; E. G. EVANS, B.A.; E. O. JENKINS; J. ISLAN JONES, M.A.; SIMON JONES, B.A.; A. J. MARTIN, B.A.; ISLWYN PRITCHARD, B.A.; J. MARLES THOMAS, M.A.; LEWIS WILLIAMS; T. O. WILLIAMS, M.A.; a'r DR. D. J. DAVIES, Mr. W. S. JONES, M.A., M.Sc., a Mr. D. JONES.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by MORTIMER ROWE, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By SIDNEY SPENCER, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. TARRANT, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. STEPHENS SPINKS, M.A., PH.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL L. MAI, 1950. RHIF 5.

Rhyfeddodau Llundain a Chyrddau'r Gymdeithas

Gan y GOLYGYDD.

NID oeddwn wedi bod yng Nghyrddau Blynyddol y Gymdeithas Gyffredinol erioed ond eleni daeth yn rhaid arnaf, a chyfaddefaf nad rhaid caled yw tro i Lundain i mi. Digon tebyg fod yr alwad yma tua Llundain yng ngwaed pob Cardi, ac i raddau, onid prifddinas Ceredigion yw Llundain ers blynyddoedd bellach. Efallai eich bod wedi clywed hanes un o blant Ceredigion a aeth i'r Coleg yn Llundain gan ennill y radd o Ll.D., a'i gyfeillion yn tynnu ei goes gan ofyn ai Llaeth a Dŵr oedd ystyr y llythrennau ! Beth bynnag, dyma Gardi arall yn cychwyn ar ei daith allan o gymoedd culion De Cymru i ehangder gwastad Lloegr, a thaith ddiddorol yw hon bob amser, er ei bod yn daith hir. Ond wrth gwyno ei bod yn daith hir rhaid i mi gofio am y merched ifainc a oedd yn cerdded o Sir Aberteifi i Lundain tua chan mlynedd yn ôl i chwynnu gerddi'r gwŷr mawr. Pa mor hir oedd iddynt hwy, y traed yn poethi a'r corff yn blino a'r driniaeth arw wedi cyrraedd. Yn ôl John Evans, y Post, Talgarreg mae hanes fod un wraig wedi cerdded yn ôl o Ferthyr i Dalgarreg, gan ddechrau ar godiad haul a chyrraedd Banc Sion Cwilt i weld y machlud. Yr wythnos ddiwethaf bûm yn holi am Gae Gwair Mawr y Merthyr, ond nid oedd neb yn gwybod dim amdano.

Gallwn dybio mai gwaith esmwyth yw ffermio ar diroedd gwastad de Lloegr o gymharu ag amaethu bronnydd eithinog ein gwlad fach ni. Ni fuasai coesau ambell ffarmwr trwsiadus a welais yn cerdded ei dir yn Lloegr, yn hir cyn rhoi o tano petai yn gorfod pitsho gwair am ddiwrnod ar lethrau Cwm Gyfeile. Ond ni raid iddo, canys y mae pob cae yn agored i'r tractor a'i deulu peiriannol, a'i ffermdy yn balas esmwyth o'i gymharu â ffermdai llafurus Cymru. Ffwrdd a ni wedyn a gweld rhesi o dai-cychod yn

nofio ar yr afon fawr a'r bobl a oedd yn byw ynddynt heb ofn y dŵr fel sydd arnom ni sydd mor hoff o ganu, "Mewn brys mynd trwy ac ofn ei dyfroedd enbyd". Sylwais wrth neshau at dref Llundain fel yr oedd nifer y *television aerials* yn cynhyddu a'r rheiny i gyd wrth gorn y simneiau ar ffurf y llythyren H. Trwy hynawsedd cyfaill caredig, cefais gyfle i weld rhaglen ddwy-awr ar y 'Tele-Wele' yma (ystyr y gair *Tele* yw *pell*, fel yn *telephone* lle mae'r *phone* yn golygu 'llais'—felly '*llais o bell*'). Y mae'n sicr, yn ôl a welais, y bydd y Tele-Wele yn un o ddylanwadau mawr yr hanner canrif nesaf. Aeth y sinema a'r bobl ifainc allan o'u cartrefi i chwilio am adloniant, eithr gall y darganfyddiad hwn ddod a chanolfan adloniant yn ôl i'r aelwyd a chyfanu'r cartref unwaith eto. Eithr ni wêl Cymru mohono am amser maith (1952 yw'r addewid) a'r rheswm am yr anhawster meddir yw ein mynyddoedd. Y mae mynyddoedd yn y Swisdir, llawer mwy na'n rhai ni, ond yn y wlad fach rydd honno mae'r bobl yn cael manteision gorau'r Tele-Wele. Esgusodion a gaiff Cymru o un genhedlaeth i'r llall hyd oni fyn lywodraethu ei thŷ ei hun.

Gan fy mod yn pregethu i'r gynulleidfa Gymraeg yn Highgate ar y Sul, cefais groeso cynnes ar aelwyd Mr. a Mrs. David Jones, Fairbridge Road ; Mrs. Jones yn gydymaith ysgol i mi a Mr. Jones yn ysgrifennydd gweithgar i'r eglwys newydd yma. Yn awr, yr oeddwn wedi gweld bron pob un o ryfeddodau mawr Llundain o'r blaen, ond yr oedd un ar ôl sef y sefydliad pwysig a elwir Petticoat Lane. A chofier mai sefydliad ydyw ac nid enw stryd arbennig. Yn y Lane ar fore dydd Sul yr oedd fel tua phymtheg ffair Calangaeaf Caerfyrddin gyda'i gilydd, a miloedd o stondingau yn gwerthu pob math o nwyddau o'r naill ochr i bob heol. A phrin y gellid gwasgu drwy'r tyrfaoedd eiddgar a heibio i ambell Iddew taer a daerai ei fod yn gwerthu'r stwff gorau yn y byd. Wrth wrando ar rai ohonynt yn siarad mor athrylithgar yr wyf bron a bod yn siwr y byddwn yn well pregethwr pe bawn wedi cael tri mis yn y Lane yn lle tair blynedd yng Ngholeg Caerfyrddin. Fel y dywedodd un gŵr croenddu yno, "*We sell the goods, no messin' abaht it*". A yw hynny'n wir amdanom ni'r gweinidogion ?

Yr Eglwys Gymraeg.

Yn ddiarwybod (canys nid wyf fi yn gyfrifol am deithiau na gweithiau'r 'Gwalch'), y mae'r rhifyn hwn o'r Ymofynnydd wedi mynd yn 'Rifyn Llundain' ac nid drwg gennyf am hynny, oblegid y mae'n bryd talu sylw arbennig i'r mudiad Cymraeg yn y brif ddinas. Y mae'r L.D.P.A. (London District Provincial Assembly) yn dathlu ei ganmlwyddiant eleni ac fe gyhoeddwyd llyfryn yn dwyn y teitl *Pioneers* (Lindsey Press, pris Swllt, 40 td.) i olrhain hanes y Gymdeithas yn Llundain. Y mae'n llyfr diddorol ond credaf fod *Pioneers* yr eglwys lewyrchus Gymraeg sy'n cwrdd yn

gyson yn Highgate Hill yn haeddu mwy o sylw na gair rhwng cromfachau ar dud. 33. Dyma'r geiriau (*To these figures we must add the Welsh Services held at Highgate Church and conducted by various Welsh-speaking ministers and laymen*). Pan fo eglwysi'r Ddinas yn marw ac edwino dylid ymfalchïo bod un o leiaf yn tyfu a blodeuo. (Pryd, pa bryd y daw'r Cymry i weld ein bod yn byw *rhwng cromfachau*). Eithr dymuna'r YMOFYNNYDD longyfarch arloeswyr a gweithwyr Cymry Llundain a'r gwŷr hynny a aberthodd i deithio ymhell i wasanaethu'r eglwys yn rhad ac am ddim. Yr oedd yn donic i weld cynulleidfa dda o tua deg a thrigain yn cyd-addoli yno ar nos Sul a'r hen iaith yn fyw ar wefus pawb. Ac nid unigolion yn cyd-gwrdd sydd yma ond cymdeithas fyw a'r cwrdd a'r cwpaned te a'r canu yn y festri ar ôl y gwasanaeth yn asio pawb at ei gilydd. Yn wir buasai'n fendith gweld estyn adeiladau un o eglwysi Saesneg marw Llundain i'r gynulleidfa hon yn gyfangwbl, fel y gallo fynd rhagddi i bethau mwy. Y mae perygl i'r bobl ddiflasu wrth fodoli rhwng cromfachau mewn tŷ benthyg ac ar weinidogaeth fenthyg. O'i chymharu â un neu ddwy o'n eglwysi yng Nghymru y gwn i yn dda amdanynt, eglwysi sy'n cynnal eu lle a'i gweinidogion yn anrhydeddus, y mae eglwys Llundain yn gyfoethocach lawer ei hadnoddau. Os bydd rhywun yn amau hyn danfonaf adroddiad un eglwys o 50 aelodau am y flwyddyn ddiwethaf ymlaen ato. Bydd eglwysi Cymru yn fodlon eich rhyddhau o'ch aelodaeth ddwbl (Llundain a'r hen gartref) os ydych yn barod i dorri'r plisgyn a dod allan o'r cromfachau.

CYRDDAU'R GYMDEITHAS.

Y mae'n bryd bellach i mi droi at fy mhriod waith a dweud hanes Cyrddau'r Gymdeithas gan ddechrau gyda dydd Mawrth a'i ddigwyddiadau. Yn gyntaf, gair am y brif Swyddfa yn 14, Gordon Square, gerllaw Euston a nepell o ganolfan y Crynwyr. Y mae adeilad hardd iawn yma a nifer o swyddfeydd wedi ei crynhoi o gwmpas yr University Hall a ddisgrifir fel hyn mewn tablet ar y mur, "This hall was erected in commemoration of the passing of the Dissenters Chapels Act in 1844 . . . To provide a place where instruction without reference to creed should be permitted in theology and other subjects not taught or not wholly taught in the University College and disavowing all denominational distinctions and religious tests to maintain the sanctity of private judgement in matters of religion". Y mae gweledigaeth y tadau yn byrlymu ym mhob cymal o'r frawddeg fawrfrydig yna.

Yma y mae Swyddfa'r *Inquirer*, y Dr. Williams' Library ac yma y mae canolfan y gŵr bywiog John Kielty, ysgrifennydd newydd y Gymdeithas. Dau ŵr o ogledd Lloegr yw Kielty a Cheetham yr is-ysgrifennydd, gwŷr bywiog, wyneb crwn di-lol yr olwg ; gwŷr y mae'n haws i Gymro gymdeithasu â hwy na'r Sais o Dde Lloegr

am ryw reswm neu'i gilydd. Yn y swyddfa y mae siop lyfrau'r enwad, ac ar gongl o'r dreser gwelais gopi o'r YMOFYNNYDD hyd yn oed.

Cwrdd Cymdeithas yr Ysgolion Sul oedd y cwrdd cyntaf prynhawn dydd Mawrth, ac yno cyfarfûm a'r Parch. Dudley Richards, M.A., B.D., Bradford, Sais diwylliedig sy'n ymroi dysgu Cymraeg meddai ac yn medru yn dda iawn. Ys truan gwŷr yw'r rheiny sy'n ymroi anghofio iaith ei mam. Mr. Cheetham a roes yr adroddiad ac ymhlith pethau eraill soniodd fod gan y Gymdeithas lyfrgell o ffilmiau ar waith ar hanes yr enwad ac ar bethau eraill, ac y bydd yn barod i'w benthyca i ysgolion sy'n fodlon gwario tua £5 i gael lantarn bwrpasol i'w dangos. Gofidiwyd fod y *Beacon*, papur misol wedi marw o ddiffyg cefnogaeth, a soniodd am ddiofalwch llawer o eglwysi gyda gwaith ieuenctid. Cafwyd anerchiad gan y Parch. W. H. Long, a soniodd am y diffyg pendantrwydd yn ein dull o ddysgu plant. Dywedodd stori am anghredadyn o Ogledd Lloegr a oedd ar ei wely angau a'i berthnasau am iddo gael gweld offeiriad neu weinidog. Gwrthodai o hyd, ond yn y diwedd, er mwyn cael tawelwch, meddai, "*Send for a Unitarian parson, they believe next to nowt, anyway*". Yna gofyn ai *next to nowt* yw ein neges i'r plant.

Oddiyma awd i'r Cwrdd Croeso yn Essex Church, Notting Hill Gate. Gwelwyd yma seremoni syml o gyflwyno Cadwyn Swyddogol newydd (Chain of Office) gan Mrs. S. Martineau i'r llywydd. Yr oedd yn gadwyn eurwych hardd ac arni'r geiriau "The General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches" o gwmpas y bathodyn, ac yn y canol, "Faith, Fellowship, Freedom"; yna o'r tu cefn, "Presented by Mrs. S. Martineau, first elected President of the G.A. and to her successors in office". Mae Mrs. Martineau yn wraig gyfoethog, hael iawn ei rhoddion, ac yn dwyn un o enwau mwyaf parchus byd crefydd. O'r ysgoldy aethom i fyny i'r Eglwys a honno yn un o'r eglwysi harddaf a welais erioed, gyda thŵr uchel a ffenestri lliw hardd ; tebycach oedd i Eglwys Gadeiriol na thŷ Cwrdd Undodaidd cyffredin. Llanwodd y lle erbyn dechrau ac yn ddiamau yr oedd yno o chwech i wyth gant o bobl i wrando'r Bregeth Flynyddol a draddodwyd gan y Dr. Mortimer Rowe. Dau beth yn unig a fu'n faich ar fy ysbryd, yn gyntaf y berw siarad cyn dechrau'r cwrdd, ac yn ail fe glywais well canu gan ddeugain o wŷr Aberdâr na chan y chwe chant yma. Eithr cafwyd ysbrydoliaeth yn y bregeth a'r Dr. Rowe ar ei orau yn rhoi rhesymau paham y mae'n rhaid cadw Undodiaeth yn fyw a'i neges arbennig ar wahan, yn enwedig y dyddiau yma pan fo culni diwinyddol ar ei ffordd yn ôl unwaith eto. Wrth ymadael â'r lle crynhoes pawb yn ddiadelloedd bychain o Gymru ac o gyfeillion. Yma cyfarfûm a E. D. Evans, gweinidog newydd Stalybridge, a'i

briod hawddgar o Gwrtnewydd. Gyda hwy yr oedd Mr. Radcliffe, ysgrifennydd yr eglwys yno a gŵr a oedd yn fawr ei barch i'w hen weinidog, y Parch. Gwilym Evans, Llandysul. Hyd heddiw, meddai, Gwilym Evans yw'r unig un a all lanw capel mawr Duckinfield gyda'i seddau i ddal 1,300 o bobl.

Trannoeth y bore yr oedd Cwrdd Busnes Blynyddol yr enwad yn y Conway Hall (cartref y Rhesymolwyr) ac uwchben y llwyfan yno y mae'r cyngor doeth mewn llythyren fras "To thine own self be true". Eisteddais y tu blaen a daeth R. H. Mottram y nofelydd enwog, a chyn-lywydd i eistedd wrth fy ymyl. Yr oedd byrddau i'r wasg yno, ond dim ond un hen ŵr bach a barf wen hir ganddo a welais wrth y bwrdd. Tynnodd yr hen ŵr barsel o bapurau gwyn allan o'i flaen, dau neu dri pâr o spectals a rhes o bensilion, ond ymhen tua awr gwelais ei fod yn cysgu'n drwm, ac ofnaf nad ef oedd yr unig un, oblegid y mae rhai siaradwyr yn cael hwyl fawr ar amlhau geiriau a hollti blew. Cafwyd anerchiad diddorol gan Mr. Harold Moore, y llywydd newydd a'r gŵr a lwyddodd fel trysorydd y Gronfa Gan Mil i gasglu £98,000. Teilwng oedd ei anrhydeddu. Soniodd am ei lywyddiaeth fel anturiaeth fawr i fyd y dyfodol, na wyddom yn iawn o ba fath ydyw. Pwysleisiodd yr angen am gadw'r gyfathrach rhwng yr eglwysi a'r G.A. yn fyw ac erfyniodd am atebion i lythyron a ddanfonid o'r Gymdeithas. Rhoes John Kielty yr adroddiad gan ddarllen cyfarchion o'r Amerig a gwledydd eraill. Yn wyneb llawer a ddywedir i ddilorni'r wlad a'i rheolwyr ar hyn o bryd yr oedd yn iechyd clywed y neges yma o Szecho-Slovakia, "*Ein prif dasg heddiw yw gweithio dros Heddwch Byd : ein arwyddair yw achub trwy gymeriad ac nid achub trwy ryfel*".

Rhoes Ronald P. Jones, gŵr tenau, tal, adroddiad y Trysorydd. Fe'm atgofiodd am y pregethwr hwnnw a oedd yn dod i'r cwrdd trwy storm a glaw ac yn wlyb hyd y croen, ond yn llwyddo bob amser i gadw ei bregeth yn sych ! Ymdriniwyd â nifer o benderfyniadau wedyn ac yn arbennig gydag un yn ymwneud a rhwystro defnyddio'r Fom Hydrogen a'r Fom Atom. Fel arfer nid oedd digon o amser i'r pethau yma a phenderfyniadau go aneffeithiol a gafwyd.

Nos Fercher gwelais fod rhywbeth arbennig i ddigwydd, 7.30 p.m. Conversazione (Morning Dress). Yr oeddwn braidd yn ofnus a chan na ymarferais i â Morning Dress ar Fanc Maesmeillion, y peth gorau oedd cadw draw. A thrwy garedigrwydd Mr. D. Emlyn Thomas, Aelod Seneddol Aberdâr, cafwyd tocyn i fynd i'r Senedd a gwrando ar y ddadl ar ôl y Budget. Teimlwn fel dweud gair ar y petrol ond fe'm siarsiwyd mai gwaith gweinidogion y goron oedd hynny ac nid gwaith gweinidogion yr efengyl. Cafwyd dadlau diddorol

a gwelwyd gwŷr enwog fel Strachey, Atlee, Dalton (hapus ei wedd), Cripps (mor sur ei olwg â'r cartŵn gwaethaf a welsoch) a phob un ohonynt ar y bench flaenaf a'u dwylo yn eu pocedi a'u traed ar ben y ford. Gwrando a wnai'r gwŷr mawr a gadawyd y siarad i'r gwŷr cyffredin.

Euthum i'r gwely'n gynnar nos Fercher gan ofidio tipyn am y Cwrdd Cymun a oeddwn i'w gynnal ben bore trannoeth, ond aeth y cyfan heibio'n ddi-ffwdan, ac fe gymunodd tyrfa fawr mewn naws hyfryd. Brysio wedyn i wrando ar Dr. W. R. Matthews, Deon Saint Paul yn traddodi Darlith flynyddol Essex Hall. (Nid dyma'r tro cyntaf i Ddeon St. Paul wneud hyn canys fe'i blaenorwyd gan y Deon Inge a gyfenwid gan rai yn *Gloomy Dean* ac a gyfieithiwyd gan rywun i'r Gymraeg fel y *Dyn Ing !*). Yr oedd y Dr. Matthews yn siaradwr rhugl ac y mae ei ddarlith ardderchog ar "Reason in Religion" i'w chael ar ffurf llyfryn am ddeunaw o'r Lindsey Press, 14, Gordon Square, W.C.1. Mynnwch gopi a gobeithiaf y daw'r Prifathro i'r adwy i roi gwerthfawrogiad ohoni yn ein misolyn. Hon a llyfr y Parch. Ifor Parry, Aberdár ar Karl Barth yw'r dadansoddiadau gorau a welais eto o waith y gwrth-resymolwyr y sydd mor fawr ei dylanwad ym myd crefydd heddiw ac sy'n ceisio tanseilio'r ffydd ryddfrydig.

Nos Iau cafwyd Cwrdd Cyhoeddus, a phedwar o siaradwyr o'r llwyfan a nifer o'r llawr, a'r testun, y Gymdeithas—Ddoe ac Yfory. Yn eu plith yr oedd Mrs. Sokel, Llywydd Urdd y Benywod, a soniodd am gyfraniad y gwragedd a merch ifanc, Margaret Smith, Llywydd Urdd y Bobl Ifainc. O'r llawr cafwyd awgrymiadau grymus. Methwyd canu un o donau anodd y nos hon ac meddai un, "Gadewch i ni gael tonau y gall y bobl eu canu, a geiriau y gall y bobl eu deall ac fe ddaw llwyddiant i'n crefydd". Awgrymodd T. J. Jones, Coventry y dylid cael cenhadaeth Undodaidd yn ein gwlad eto gan dalu sylw arbennig i arfordir Gogledd Cymru. Y siaradwr olaf oedd S. R. Butler, Caerdydd a dywedodd ei bod yn arfer rhoi allwedd drws y ffrynt i fachgen a merch ifanc pan gyrhaeddent 21, yr oedd y Gymdeithas yn dathlu ei hunfed benblwydd ar hugain a'r cwestiwn oedd, a ydyw'r eglwysi yn barod i roi allwedd drws y ffrynt iddi. Cofier nad rhywbeth i roi boiler newydd i'r festri yw'r Gymdeithas, ond cyfrwng i briodi'r eglwysi yn un frawdoliaeth fyw. Dyna'r Cyrddau. Beth amdanynt? Cyrddau da, *No messin' abaht it!*

15—20 Ebrill, 1950.

Interview a Gwyr Blaenllaw'r Enwad.

Gan Walch Ogwr.

VIII.

Y DR. R. O. JONES, LLUNDAIN.

Am y tro petruswn heb wybod ble i droi, ac fel hen gadno nid oedd dim amdani ond troi yn fy ngwrthol. Meddyliais unwaith alw ar Drysorydd y Gymdeithas gan geisio *sub* ganddo am beidio adrodd hanes slawer dydd. Wedyn edrychais amser y bws am Gefncoed er mwyn galw ar Mr. Edwards un o bileri'r Hen Dŷ Cwrdd. Yr oedd y tywydd braidd yn oer i dynnu am lan y môr fel y caiff W.S. lonydd am y tro. Yn ddifeddwl cofiais am Gyrddau'r Gymdeithas yn Llundain, a chofiais hefyd am awgrym y Golygydd y dylaswn ddal ar gyfleu a lladd dau aderyn ar un garreg. Dyma'r cyfleu a chodais docyn am Lundain gan roi un o hen gyfrolau'r Ymofynnydd yn fy mag i'w darllen ar y ffordd. O droi ei dail yn y trên gwelais grybwyll llwyddiant llanc o Drebanos yn graddio ym Mhrifysgol Cymru, a bûm dro hir cyn adnabod y gŵr gradd ifanc, y Dr. R. O. Jones, oherwydd y mae wedi dringo'n uchel oddiar hynny. Ni adwaenwn i mor gŵr gradd yr adeg honno ond flynyddoedd yn ôl bellach, ar brynhawnddydd tesog o haf hirfelyn penderfynais ddringo mynydd Gellionnen, ac oedais ar glôs fferm Ty'n y Pant, cartref y Dr. R. O. Jones.

Wedi bod dridiau yn y Conway Hall, Llundain penderfynais, gan nad oedd galw arnaf, i aros yno dros y Sul er mwyn cael interview a'r Doctor, ac ennill fy mhres oddi wrth y Golygydd. Trois i mewn i Gapel Highgate. Nid oedd y gynulleidfa dros ben o luosog, ond yr oedd yno nifer o wŷr cefnog. Cyn diwedd y gwasanaeth wele ŵr cymharol ifanc i'r olwg, gwelw ei wedd, a chanolig o daldra yn cerdded yn bwyllog at y ddesg i wneud y cyhoeddiadau. Sylwn fod gwargrwm yr ysgolor ganddo. Gŵr hollol ddiymhongar ydoedd ac onibai i rywun sibrwd ei enw, ni ddychmygwn fod *doctor* yn perthyn iddo. Siaradai'n bwyllog a gwylaidd, gyda dwyster teimlad, a thalai ddiolch i'r gweinidog mewn geiriau dethol a charedig. Ni feddyliai y naill na'r llall fod Gwalch Ogwr yn eu gwrando ! Casglwn mai efo oedd blaenorwr y gynulleidfa. Wedi'r gwasanaeth fe'i dilynais fel Petr o hirbell i'r festri gefn, ac yno wrth yfed tê a chanu fe'i gwelais eilwaith yn prysur ysmygu'i chalon hi yn y gornel. I'r neb nad yw wedi bod yng ngwasanaeth Highgate y mae'r ymgom, y cwpaned te a'r canu yn rhan ohono. Nid oedd gennyf i, ŵr dieithr, hawl i fynd i'r cysegr santeiddiolaf, ond yr oedd pawb mor serchog, ac nid hawdd gwrthod. O

grwydro hwnt ac yma deuthum o'r diwedd at y Doctor gan ddwedyd yn swil wrtho, "Y Dr. Jones, ai ie" ? "Ie", meddai'n garedig ddigon, "ond pwy ddwedaf yr ych chi. Nid ych wedi bod yma o'r blaen, neu nid wyf yn eich cofio o leiaf" ?

"Gŵr o Fro Morgannwg ydwyf", oedd fy ateb, "wedi bod yng Nghyrddau'r Gymdeithas i gadw llygad ar fy Ngolygydd, ac i wrando ar bregethwyr mawr yr enwad a'r gwŷr sy'n cadw'r achos yn fyw. Sylwais ar nifer o *ddelegates*, yr un rhai flwyddyn ar ôl blwyddyn nes peri i'r Sais gredu nad oes neb ond hwy yn Undodiaid, a chan nad oedd alw arnaf gartref tariais dros y Sul er mwyn dod i Highgate".

O sôn wrtho am Fro Morgannwg, naturiol iddo oedd troi ataf a gwên ddireidus ar ei wyneb, a gofyn, "Ai chwi yw Gwalch Ogwr" ?

"Ie", meddwn innau dan chwerthin, ond ni choeliai mohonof a throis innau'r siarad y cyfle cyntaf gan sôn am y Cyrddau. Yr own wedi dod bob cam nid i wrando'r siarad ar y Fom Atom nac ychwaith glywed am ddiffodd y lampau, chwedl Syr Edward Greg gynt, ond yn hytrach i glywed trafod cwestiwn y cysylltiad rhwng ein Colegau a'n Heglwysi. Gyda llaw ni throis i wrando ar y Pregethwyr Mawr, ond yr own yn falch iddynt barchu'r Golygydd a thybiwn maes o law y caiff Undodwr o Gymro ei le nid yn unig yng Nghyrddau'r Enwad, ond gan y B.B.C. yn ogystal. Gwelais nodyn o eiddo'r Golygydd yn yr *Inquirer* yn canmol y B.B.C. am roi cymaint o sylw i'r Undodiaid, ond yr wyf am hyd yn oed i'r Golygydd gofio er ei fod ef yn cael ' sut hwyl ' gyda'r B.B.C., nad dim ond efo a gynrychiola Undodiaid Cymru. Nid yw hynyna ond tamaid i aros pryd. Gwelais fod y Doctor wedi sylwi ar y pwyslais ar gysylltiad y Colegau a'r Eglwysi, a gofynnodd fy marn i ddechrau am yr Achos Cymraeg. Atebais yn ddifrifol, "Dim rhyw lawer. Dechreuasoch yn dda ond ofnaf bod y fenter yn methu. Nid oes digon o ysbryd blaengar ynoch neu buasech wedi rhoi galwad i Weinidog cyn hyn. Wrth fwrw golwg dros y gynulleidfa credaf bod gennych aelodau cefnog", a dechreuais eu henwi, "Dyna chi J.O., y codwr canu, yr Organydd o Harrods, y gwŷr llaeth o Gaeronnen i Gribin, ac o Lambed i Landysul". Doi gwên serchog i'w wyneb, a dywedodd mewn ateb, "Digon gwir, ond nid dyna'r broblem. Nid arian yw'r broblem fawr, ond y ffaith fod y mwyafrif ohonom wedi ymaelodi gydag enwadau eraill cyn inni feddwl am achos Cymraeg yma. Y mae'n anodd cael adeilad, ac ni wyddom a oes inni yma ddinas barhaus. Fe garem roi galwad, ond ofnwn na fedrem dalu cyflog byw, ac ofnwn yn fwy nad yw'r Mudiad yn mynd i aros".

Ni ddywedais ddim am ennyd. Mentrais awgrymu fod egwyddor a ffydd y tadau yn bwysicach na hen gysylltiadau a bywyd esmwyth ym mynwes hen gynulleidfaoedd uniongred. "Nid oes raid i chwi gloffi am na fedrwch roi cyflog byw. Ni byddech nemor yn

wahanol i'r mwyafrif o gynulleidfaoedd yn hyn o beth, ond y mae'r petruster am ddyfodol yr achos yn bwnc arall, ond y mae'n fwy tebig o fyw dan weinidog na hebddo. Da oedd gennyf eich clywed yn dweud nad arian oedd y broblem fawr oherwydd fe fedrech dalu 'cyflog byw' i weinidog ag Income Tax rhyw hanner dwsin ohonoch". Ni'm hatebodd, ond chwarddodd, gan ddywedyd wrth dano cigarette arall, "Gŵr garw ydych". Y drwg amdani, yr oedd yn dweud y gwir.

O dipyn i beth gofynnodd beth a feddyliwn am yr ymdrafod ar gwestiwn y cysylltiad rhwng y Colegau a'r Eglwysi. Ni fedrai ond dywedyd y dylasai ef wybod gan ei fod yn cynrychioli eglwys ar y Bwrdd Presbyteraidd. Ni wn a oedd rhywbeth yn nhôn fy llais ai peidio ond atebodd gan ddywedyd fod hen bregethwyr adeg T.T. ac R.J.J. yn edrych yn ddrwgdybus ar y Bwrdd, "ac nid yw rhai o'r gweinidogion presennol nemor gwell. Y tro diwethaf y bu yma yr oedd Gweinidog Brondeifi yn llawdrwm iawn arnom". Gwyddwn y medrai Gweinidog Llanbedr ei amddiffyn ei hun heb fy help i ond dywedais, "Chware teg ! y mae'n rhyfedd fod yr hen amau'n dal. Nid oes fwg heb dân na drwgdybiaeth heb achos. Gan ein bod mewn seiat yma, cystal bod yn onest. Ni chredaf bod nemor i athro derbyniol i'r eglwysi wedi ei ethol i gadair yng Ngholeg Caerfyrddin yn ystod y can mlynedd diweddaf a rhagor. Ni chredaf y gŵyr Eglwysi Undodaidd Cymru ddim o hanes yr un nes ei fod wedi ei ethol. Ni ofynwyd am farn yr eglwysi parthed dim erioed hyd y gwn i. Gyda llaw, a oes gennych ryw *sistem* o lanw cadair heblaw mympwy'r foment neu wirepulling ? Cofiwch, gofyn yr wyf ac nid pasio barn canys ni chreddaf y gŵyr neb yng Nghymru eich ffordd o weithio".

"O gan bwyll", meddai, "beth sydd gennych i ddweud am y prifathro presennol. Y mae'n ŵr cymharol ifanc ac wedi graddio ym Mhrifysgol Cymru".

"Nid teg, Dr. Jones, yw dwyn personau i mewn . . . sôn am y sistem yr own i ond gan i chwi sôn am oedran. Yr oedd yn ddigon hen cyn i un o'i ddau ragflaenwyr gael ei ethol. Medrwch chwi siarad am raddio yn well na mi, waeth ni wn i nemor am y graddau yma ond cofiaf am hen wraig yn fy nghartref a chanddi ddau fab yn y Coleg. Daeth un gartref â B.A., a'i fam yn gofyn ystyr y llythrennau ac yntau'n esbonio mai Bachelor of Arts oeddent. 'Da machgen i,' meddai heb wybod mwy am eu hystyr na thwrch daear am yr haul. Ymhen deuddydd neu dri daeth y llall adref a chafodd yntau'r un cwestiwn, 'Beth gest ti' ? 'O ! F.S. gefais i,' meddai wrthi. 'Beth yw hynny' ? gofynai'r hen wraig, 'Flat Shot,' oedd ei ateb ysgafn i'w fam a hithau'n dweud, 'Da mhlant i, yr ych wedi gwneud yn rhagorol.' Ofnaf innau na wn i nemor rhagor na'r hen wraig am y graddau yma, ond gwyddoch chwi

gymhwyster y prifathro presennol yn well na mi am eich bod wedi bod tan ei weinidogaeth".

Ni ddywedodd y Doctor air am gymhwyster prifathro coleg na'r ffordd o'i apwyntio. "Ni chredaf", meddwn wrtho, "y goddefid apwyntio Clerc Cyngor Plwyf y ffordd yr apwyntia y Bwrdd Presbyteraidd brifathro Coleg Caerfyrddin. Dyna o leiaf fy marn i, a chofiwch lawer gyda mi". Gan fod y Doctor yn ddistaw dro, gofynnais iddo, "A oes berygl cau Coleg Caerfyrddin fel yr awgrymir gwneud a Choleg Manceinion, Rhydychen neu ei estyn i enwad arall? Mewn difrif a ydych wedi apwyntio'r prifathro olaf"?

"Beth yw'ch barn chwi"? oedd ei ateb, "Onid ydych yn fodlon ar waith y Bwrdd yng Nghymru ac yntau wedi gwneud cymaint dros grefydd rydd yng Nghymru, beth a garech inni wneud"?

Nid teg mewn *interview* rhoi barn bersonol ond gan y gwyddwn y carai wybod fy marn onest nid oedd dim amdani ond siarad plaen, a dywedais, "Nid wyf mewn sefyllfa i basio barn gan nad yw fy llais yn cario dim dylanwad ym mhwyllgorau'r enwad. Addefaf fod y Bwrdd a Choleg Caerfyrddin wedi gwneud gwaith mawr dros Grefydd Rydd o ddyddiau Perrot. Hwyrach onibai am Goleg Caerfyrddin na buasai yna Fudiad Undodaidd yng Nghymru ond nid yw ei ddylanwad heddiw y degwm ag a fu gynt. Ni wn paham. Ai polisi tramor neu Seisnigaidd y Bwrdd, ynteu bod y Bwrdd *out of touch* a Chymru ac wedi goroesi ei ddefnyddioldeb. Ni ŵyr yr Eglwysi nemor mwy o hanes y Coleg na phe bai yn Nhimbactŵ ac ni chymerant ddiddordeb ynddo. Wrth geisio bod yn deg i bob enwad, y mae wedi troi mae'n ymddangos felly yn wrth-Undodaidd. Bu helbul a thwrw adeg apwyntio Clunadda ac eraill . . . ond beth dâl siarad. Disgwyliem bethau mawr a dau Gymro ar y Bwrdd . . ."

"Ni chredaf", oedd ei ateb, "eich bod yn deg â'r Bwrdd. Y mae mwyafrif o'n gweinidogion wedi'u haddysgu ynddo ac y mae ysbryd eangfrydig y Coleg i'w deimlo ym mhulpudau Cymru Y mae gennym am y tro cyntafers blynyddoedd fyfyrwyr Undodaidd ynddo".

"Yr wyf yn falch i glywed hynyna", ond nid yw hynyna yn cyfiawnhau dim ar y sistem. Y mae mor hen a cheidwadol a dim yn y wlad ac ni welaf eich bod wedi symud cam yn y blaen er pan oedd Dr. Rees yn Ysgrifennydd ac yn gofalu am bobl *saff*. Fe fedr y sistem roi pobl *saff* i chwi ond dyddiau gorau Caerfyrddin oedd dyddiau pan oedd *rebel* fel Perrot yno. Gwelaf na chytunwn. Glynwch wrth eich sistem a'ch pobl saff. Hwyrach eich bod yn iawn. Pwy ŵyr. Cofiwch hefyd eich bod wedi'i threio am ganrif heb nemor o lwyddiant hyd y gwelaf i. Ar waethaf fy marnu dymunaf Dduw'n rhwydd i chwi gyda'r Achos Cymraeg a'ch gwaith ar y Bwrdd Presbyteraidd ond carwn fedru chwythu ar yr ' esgyrn sychion ' nes gweld ysbryd newydd yn yr hen gorff.

Un o Gymry Llundain.

Gan Sylwedydd.

Gan fod naws y Gwanwyn yn yr awyr penderfynais fyned am daith drwy'r wlad ac i weld y môr yn Aberystwyth. Dechrau gwawrio oedd hi yn Pontardawe pan euthum drwyddo neu fe fuaswn wedi galw i weld y Parch. Islwyn Pritchard y pregethwr newydd yno. Clywaf bobol y Graig a Gellionnen yn siarad yn uchel iawn amdano. *Once a Methodist, always a Methodist*, meddai rhywun, ond nid gwir y dywediad bellach, oblegid gwn am ddau Gymro arall sydd wedi gadael y Corff—y Parch. E. H. Morris, M.A., B.D. (New Zealand yn awr) a'r Parch. T. J. Jones, B.A., Coventry. Wrth fynd drwy Rydaman cofiais am Watcyn Wyn a'i farddoniaeth a'i ysgol, eithr cofiai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn y bus am Donald Peers yn unig. Carwn fod wedi cael amser i adael y bus yn Llandybïe a cherdded i gyfeiriad Llandyfân i weld adfeilion hen eglwys Undodaidd Onnen Fawr. Yn Llandilo gwelais gip o'r Parch. Ben Davies, gŵr y bu ardal Llandysul bron a'i wneud yn Undodwr un tro. Ni welais sôn am y Parch. T. O. Williams yn Llanbedr, na'r Parch. Lewis Williams yn Rhydygwin, ond wrth deithio drwy Ddyffryn Aeron cofiais am Iwyddiant y Parch. Coram Davies yn Bryste—eglwys a lewyrchodd o dan Gymro unwaith o'r blaen, sef y Parch. Dr. Tudor Jones.

Pan gyrhaeddais Aberystwyth pwy gwrddais ar yr heol yno ond Mr. James Oliver Lewis o Lundain—yntau yn Aberystwyth am fod ei nai, mab y diweddar ac annwyl Penry Lewis—yn priodi. Adnabyddodd J.O. fi'n union, ac aeth y siarad at gwestiwn llosg y dydd—Pwy yw Gwalch Ogwr? Credai pobl Llundain mai 'hanner a hanner' Oswald a Jacob ydyw. Synnais o glywed hyn ond ddywedais i ddim. [*Dyma'r dweud gorau Syr, dweud dim—ond yr oedd ymhell o'r marc coelied fi!*—Gol.]

Hawdd gweld fod J.O. yn Undodwr i'r carn a bod ei galon yn yr eglwys Gymraeg yn Llundain. Ef yw'r trysorydd ac Arweinydd y Gân yno ers pan ddechreuwyd yr achos. Gŵr llawn o hiwmor, a un heb ofni galw rhaw yn rhaw ydyw. Cafodd ei fagu yn ardal Talgarreg, agorodd fusnes yn Llanbedr a bu'n aelod ffyddlon ym Mrondeifi am flynyddoedd. Aeth oddiyno i Hwlffordd lle heb iddo eglwys Undodaidd. Aeth i eglwys arall, a gofynnwyd iddo ymaelodi, ond er i J.O. ddweud mai Undodwr oedd ac na wnai dim iddo newid ei gred, derbyniodd yr Eglwys drindodol honno ef fel aelod, "on my own terms" chwedl J.O.

Y cam nesaf oedd Llundain, ac er iddo ofalu codi ei blant yn aelodau o Ysgol Sul Gymraeg, ni ymaelododd ef mewn unrhyw eglwys er iddo fynychu'n gyson. Pan gynhaliwyd y gwasanaethau Cymraeg Cyntaf yn Llundain yr oedd J. O. Lewis yna a dyma

gyfle bellach i lanw'r bwlch a fu yn ei fywyd ers blynyddoedd. Ymaflodd o galon yn y gwaith, yr oedd yn aelod o'r pwyllgor bach cyntaf, a gweithiodd yn galed dros lwyddiant yr Eglwys yn Stamford Street, yna yn Islington ac yn awr y mae wrthi yn Highgate. Pan holais am yr achos bach, adfywiodd i gyd, "Mae'r faner yn dal i chwifio", meddai, "a ninnau'n ceisio adeiladu eglwys newydd pan fo'r lleill yn cau. Soniodd am yr eglwys yn parhau i fyw er gwaeth-af y *Blitz* a'r *Fly Bombs*, ac os oedd y nifer yn fach y dyddiau hynny yr oedd y deunydd yn dda a gwaed yr arloeswyr yn eu gwythiennau. Siaradodd am y diweddar Barch. Arthur Pearson fel angel o ddyn a gwelais ddeigryn yn ei lygad wrth sôn amdano. Yn awr dywedir fod pob Cardi yn gwybod sut i ofalu am arian, a gwnaeth James Oliver Lewis drysorydd penigamp. Y mae'n sicr nad oes gwell llyfrau gan un eglwys, dyna yw tystiolaeth Jack Lewis (o Gribyn) un o'r archwilwyr.

Aeth rhagddo i sôn bod eisiau adeilad eu hunain arnynt bellach a phregethwr amser llawn—ond rhaid cael arian mawr at hynny, a gofynnodd i mi chwilio i weld a oedd rhywun yng Nghymru a chanddo arian yn sbâr at achos mor dda.

Wrth ymadael ag ef erchais arno i'm cofio at fy nghyfaill Dr. R. O. Jones, ac wrth ei weld yn mynd cofiais am yr hen ddiffiniad o Undodwr, "One God, No Devil and twenty shillings in the pound".

Gŵr ugain swllt y bunt yw J.O.

Mrs. Williams y Mans.

Gan Hen Ffrind.

Dyna sut mae pawb yn ei hadnabod, ac fel un a gafodd bron hanner canrif o'i chwmni yr wyf yn edmygydd mawr ohoni yn ei swydd bwysig a chaled, oblegid swydd yw bod yn wraig i bregethwr. Ni allaf ganmol gormod ond gallwn ganmol rhy fach ond pe cawn roddi marciau cawsai gant y cant ! Rhoes Mrs. Williams ei gorau i'r capel ac i'w chartref, a siarad am y cwrdd a'r Ysgol Sul a geir ar ei haelwyd. Yno mae glendid ar ei orsedd bob amser, ac oherwydd hynny y mae yn un o'r ffyddlonaf i'r cysegr, a'i llais canu hyfryd yn help ymhob cyfarfod. Eto gyda mudiad y chwiorydd, trwy ei dull boneddigaidd y mae'n cael llewyrch ar y gwaith a chydweithrediad diddig pawb. Y mae'n groesawus a haelionus, ac yn y sosial flynyddol gwelais hi lawer gwaith yn rhoi anrheg yn llaw pob plentyn ai o'r capel neu beidio. A'i dull yw ' Na wyped dy law aswy pa beth a wna dy law ddehau ' gyda phlant a chleifion. Nid pobl Rhydygwin yw ei phobl hi ond pawb fel ei gilydd sydd gymdogion iddi a chredaf yn ddios fod y llwyddiant sydd wedi dilyn y Parch. Lewis Williams i'w briodoli i'r ffaith ei fod wedi cael gwraig sy'n ymgeledd gymwys iddo ar bob achlysur. Hir y caffont gwmni ei gilydd i droedio gweddill y daith.

Hen Atgofion am Llwynrhydowen.

Gan J. C. Jones, Brynteify.

Melys iawn i mi yw hen atgofion bore oes ac yn neilltuol dull ac arferion cymdogaeth cartref fy mebyd tua ardal Llwynrhydowen, Sir Aberteifi.

Pwy ddydd euthum i fyny dros rai o'r hen lwybrau lle bum yn chwarae, ac o gofio am lawer o'm hen gyfoedion yn ysgol Pontsian, aeth fy meddwl yn drist fod bron y cwbl oll o honynt wedi croesi, a phoblogaeth newydd yn bodoli. Nid efallai mor lluosog, ond yn wresog a charedig ei hymddygiad. Yn ymwybodol, cyfarfyddais a hen gyfaill mynwesol Thomas Lloyd, Pwllaurbryn, ac ef yn 88 oed, a thra yn ymddiddan, cefais drem ar lecyn tlws fy ngenedigaeth yn sefyll ar fryn disglaer yn wynebu prydferthwch Dyffryn Clettwr, uwchben Gelligron, Llwynmarles (cartref y Parch. E. O. Jenkins) a Camnant-fach, lle genedigol y diweddar Barch. William James, B.A., J.P., cyn-Weinidog y Llwyn. Erbyn heddiw, mae yr hen adeilad wedi ei drawsffurfio a'i ail enwi yn Garthowen, gan ei berchennog, Mr. Josiah R. Jones, J.P. yn balas hardd ac addurn i gymdogaeth Llwynrhydowen. Y mae pentref Pontsian a Gelligron yn newydd i gyd ac er harddwch a chyfnewidiadau teithio o'i gymharu ar hyn oedd hanner can mlynedd yn ôl, deil yr heolydd a'r hen lwybrau yr un o hyd. Trwy dreigliad tawel y blynyddoedd mae yma weledigaeth drist wrth ymyl y Llwyn, lle y gorwedd llu o hen gyfoedion annwyl a wnaeth aberth fawr dros ryddid a chyfiawnder.

Ymhlith y lliaws sydd yn gorwedd yn y fynwent mae y diweddar Barch. Wm. Thomas, M.A. (Gwilym Marles) ; D. Evans, B.A., Maesymeillion (dau o hen Weinidogion y Llwyn) ; William Davies, hen Weinidog y Cribyn ; a phrifathro Ysgol Ramadegol Llanybydder, a'r Parch. E. G. Jones, diweddar Weinidog y Cribyn. David Thomas, Siop Rhydowen a'i chwaer Margaret, a William ei frawd ; teulu Gellifaharen ; John Jones, Ysw., Mrs. Jones a'u dau fab, Tom a Daff Jones, dau deulu arbennig yn hanes y Llwyn a'r Troad Allan o'r hen Gapel, ac yn yr ymdrech i godi y capel newydd hardd. Ar achlysur ymweliad y Parch. William Thomas â Chapel Newydd y Llwyn ychydig ddyddiau ar ôl ei agoriad yn Hydref 1879, canodd fel y canlyn :—

Unwaith mi gefais weled
Y Demel brydferth hon,
Ac edrych ar ei harddwch
Llawenydd yw i'm bron :
Ond pan yr wyf yn cofio
Yr hen adeilad lwys
Daw dagrau i fy llygaid
A chwyd ochenaid ddwys.

Mae yna liaws eraill a fu yn amlwg yn yr helynt yn y Llwyn, ac yn ddiweddarach, wedi ymdrechu codi "Manse" prydferth 'Llwynmarles' i'r Gweinidog. Nac anghofied y dô ifainc sydd yn codi yn y gymdogaeth ymdrechion eich tadau a'r hyn sydd yn eiddo i'r Eglwys yn rhad i'r oes bresennol. Mater pwysig a garwn drosglwyddo i'r bobl ifainc sydd yn addoli ac yn cymeryd diddordeb mewn cynnydd yr Eglwys yw rhoddi ychydig hanes y terfysg yn yr Hen Gapel yn 1876. I roddi hanes mwy trwyadl am yr hyn a arweiniodd i fyny at y gwir achos o'r Troad Allan, buddiol fydd i'r darllenwyr presennol gael hanes cyflwr y wlad y blynyddoedd hynny. Parodd yr achlysur hwn boen ysgeler i'r gynulleidfa am amser maith, ac yn ystod deng mlynedd blaenorol, yr oedd terfysg mawr yn bodoli ym myd gwleidyddiaeth. Fel y gwyddis y pryd hwnnw, rhwng y Tori a'r Liberal yr oedd yr ymryson, a'r meistri tir yn gorthrymu eu tenantiaid drwy beri iddynt fotio yn ôl ei ewyllys hwy ac nid yn ôl meddwl a rhyddid barn y bobl ym meddiant o'i cartrefi. Trowyd llawer allan o'u cartrefi yn Sir Aberteifi yr adeg hon. Mr. D. J. Lloyd oedd perchen stâd fawr Alltyrodyn, ac yn cael ei ddylanwadu gan ei Agent o'r enw I. M. Allen, a'r Hen Gapel yn sefyll ar brydles ar ystad Alltyrodyn. Yr oedd Mr. Allen yn Geidwadwr (Tori) penboeth.

Yn y flwyddyn 1858, daeth Mr. William Thomas, myfyriwr ym Mhrifysgol Glasgow y pryd hwnnw, i wasanaeth y Llwyn a Bwlchyfadfa, ac yn 1860 wedi iddo raddio yn anrhydeddus yn M.A., daeth yn Weinidog sefydlog i'r ddwy gynulleidfa, ac yn olynydd i'r Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion. Yr oedd Gwilym (fel yr adwaenid ef erbyn hyn) yn ddyn ieuanc galluog. Ymdrechodd ymdrech deg dros oleuni a rhyddid. Yr oedd yn ysgolor gwych, bardd, a gwleidydd goleuedig. Tua'r blynyddoedd hyn yr oedd cyfnod newydd ar wleidyddiaeth, a Mr. Thomas yn arweinydd tanbaid drwy yr holl wlad, yn Rhyddfrydwr cyhoeddedig, fel y syrthiodd yn elyn gyda'r blaid ragfarnllyd, geidwadol.

Cyfnod cyffrous oedd tua'r flwyddyn 1867 rhwng y tenant a'r meistr tir yng Nghymru, ac yn y fythgofiadwy 1868 cafwyd ymdrechfa etholiadol yn Sir Aberteifi rhwng Mr. E. Mathew Richards, a Capten Vaughan, a bu Gwilym Marles yn gymorth mawr i Mr. Richards, fel Gwleidydd yn yr ymdrechfa hon, fel y gwnaeth ei elynion gynllwyno anwireddau anheilwng yn ei erbyn. Dyna yn gyflawn fu yr achos erchyll o droad allan o'r Hen Gapel Llwynrhydowen.

Ymhen tua tair blynedd ar ôl hyn, trosglwyddwyd y Capel yn ôl i'r gynulleidfa gan Mrs. Massey, chwaer perchennog Alltyrodyn. Saif yr hen adeilad heddiw yn addoldy coffadwriaethol i ryddid, ac yn eiddo am byth, yn rydd-ddaliad (*freehold*) i gynulleidfa'r Llwyn drwy ymdrech bersonol y diweddar Capt. William Davies a Mrs. Davies, Rhydowen-fach.

(*I'w barhau.*)

Tim.

(Trwy gydweithrediad â'r Winllan).

"Mae mam yn gweud bo chi wedi anghofio hela'r te a'r menyn draw neithwr", ebe Tim wrth Mr. Williams yr Emporium.

"Taw a dy lol", meddai'r Siopwr. "Wel, mae'n well iddi hi eu cael nhw on'd yw hi ? . . . A chan dy fod ti yma fe gei fynd â'r wyau yma iddi hefyd. Newydd gyrraedd y bore 'ma".

Rhoes bedwar wy mewn bag papur a'i estyn i Tim. "Cymer ofal ohonyn' nhw", meddai, a throes i 'mofyn y te a'r menyn.

Ar hyn daeth Dafydd Dafis y Cei i mewn ; ac wrth i Tim droi i weld pwy oedd yno, llithrodd y bag o'i law. Chwap !

"Wel, wel", ebe Dafydd Dafis, "Bachan pert wyt ti". A chan daro cefn Tim, meddai, "Lwcus nad wyau oeddynt ynte" ? Edrychodd ar Williams a chwerthin. Edrychodd hwnnw ar Tim. Ond yr oedd llygaid Tim ar y bag papur.

Priodas.

Ebrill 4, yng Nghapel Rhydygwin unwyd mewn glân briodas Miss HANNAH JONES, merch Mrs. Jones a'r diweddar Henry Jones, Bryngwyn, Cribyn a THOMAS JOHN JONES, mab hynaf y diweddar Mr. a Mrs. Jones, Kernonga, High St., Llanbedr. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams. Canwyd yr organ gan Mrs. Davies, Caerwilym.

Marwgofion.

Ionor 8, yn 83 mlwydd oed, bu farw ANNE DAVIES, 10, Peterwell Terrace, Llanbedr. Gweddw ydoedd i David Davies, y Gof, a fu yn Faer Llanbedr ac yn aelod o Gyngor y Dref am flynyddoedd hir. Benyw yn caru ei haelwyd a'i chartref ydoedd, ac anfynych y'i gwelid yn unman ond yno. Magodd deulu lluosog a gofalu am ei phriod a'i theulu oedd prif waith ei bywyd. Claddwyd ar Ionor 12 ym mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd yn ei hangladd gan ei gweinidog y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd dri mab a thair merch i alaru o golli mam dda a diwyd.

Dydd Sadwrn, Mawrth 4, yn 58 mlwydd oed bu farw yn ddisymwth TOM DAVIES, mab y diweddar Mr. a Mrs. David Davies, y Gof, Llanbedr. Nid oedd yn gryf o gorff, ond yr oedd wedi bod yn gweithio ym Mirmingham oddiar dechrau'r rhyfel ac yno yr oedd pan glafychodd a marw. Yr oedd wedi gadael Llanbedr ers blynyddoedd, gan symud i fyw i Aberaeron. Gŵr tawel a diymhongar ydoedd, ac ychydig a feddylid o'i weld yn angladd ei fam ei fod yntau ar ffarwelio. Claddwyd y dydd Gwener dilynol ym mynwent Eglwys Hen Fynyw, ger Aberaeron, yr angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan Ficer a Churad Aberaeron a Ficer Llandysul. Gadawodd briod, mab a merch, dau frawd a thair chwaer i alaru ar ei ôl o'i golli mor annisgwyl.

Mawrth 14, yn 82 oed, bu farw Mr. THOMAS THOMAS, Llysmeddyg, gynt o Pantmeddyg, Cwmsychbant. Yr oedd wedi ei oddiweddyd gan lesgedd ers blynyddoedd, fel mai yn anaml iawn ei gwelid y tu allan i gylch ei gartref. Yr oedd yn frawd annwyl iawn mewn cymydogaeth, ac fe erys cof melys amdano fel gŵr doeth a charedig. Gadawodd weddw, mab a dwy ferch mewn hiraeth o'i golli. Gosodwyd ei weddillion y dydd Gwener dilynol ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llanwenog. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. E. Bowen ; S. Morgan, Ficer a W. M. Davies, Ficer Ystradmeurig.

Mawrth 18, bu farw Miss MARGARET THOMAS, Pensarn Cottage, Cwrtnewydd yn 60 oed. Er nad oedd wedi bod mewn iechyd da ers amser,

trist iawn ac annisgwyliadwy fu ei diwedd, a chydymdeimlir yn fawr a'r perthynasau yn eu trallod. Yr oedd gair caredig iddi gan bawb, ac yr oedd wedi rhoi o'i gorau mewn gwasanaeth trylwyr. Y dydd Mercher dilynol mewn angladd preifat gosodwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Capel-y-Bryn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. S. E. Bowen a T. Oswald Williams.

Mawrth 30 yn 87 mlwydd oed, bu farw MARY EDWARDS, Coed-eiddigfawr, Pencarreg, ger Llanbedr. Yr oedd wedi gweld oedran teg, ond yr oedd popeth mor dawel ac addfwyn ynddi fel y galarem o'i cholli. Yr oedd yn un o'r hen ffyddloniaid a chanddi gariad at gapel a gweinidog. Gwyddem ei bod yn suddo'n dawel ac ni fedrid disgwyl dim arall. Claddwyd ym mynwent Brondeifi y dydd Llun dilynol, yr angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei gweinidog, y Parch. T. O. Williams. Gadawodd frawd a chwaer heblaw nifer o berthynasau eraill i alaru ar ôl colli gwraig weithgar a ffyddlon.

Sul, Ebrill 2 cododd LUCY, annwyl briod Tom Richards, Bryndelyn, Talgarreg i bob ymddangosiad yn ei hiechyd arferol. Tua 10 o'r gloch achwynai oddi wrth boen mawr yn y pen a deallwyd ei bod wedi cael ergyd o'r parlys, a bu farw tua 6 o'r gloch yr hwyr. Y Mercher dilynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capel Mydroilyn lle y maged hi. Gwasanaethwyd gan Morlais Evans (A), Pisgah ; E. O. Jenkins a W. M. Jenkins (E), Talgarreg. 'Roedd yn un o deulu gweddol luosog, ac â ein cydymdeimlad i'w phobl a'i phriod a'i phlant. Tra mae'i phriod yn aelod ym Mwlchyfadfa, 'roedd hi'n ffyddlon gyda'r Annibynwyr ym Mhisgah.

Ebrill 4, 1950 bu farw BENJAMIN JONES, Blaenblodau, Cwmanne, Pencarreg yn 80 mlwydd oed, wedi cystudd hir a chaled. Treuliodd ran fwyaf ei oes yn nhref Llanbedr fel Coach-builder, a gwyddid yn dda am Davies and Jones, Coachbuilders, Heol y Coleg, Llanbedr, ond rywsut hwnt i'r afon yn Sir Gaer y trigai. Collodd ei briod ers blynyddoedd meithion, ac nid oedd ganddo ond brawd, un mor agos a brawd, un mab, heblaw perthynasau eraill i ofalu amdano. Aelod ydoedd fel ei deulu yng nghapel Parcyrhos, a chadwodd ei gydgynulliad yno'n ffyddlon. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym medd ei briod, ym mynwent Eglwys Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. Giraldus Jones, Ffaldybrenin, ac ar lan y bedd gan Weinidog Brondeifi.

Ebrill 11, yn 82 mlwydd oed, Mrs. ELIZABETH JENKINS, gweddw y diweddar Jenkin Jenkins, Blaenwaun-uchaf, Llanwnen. Yr oedd Mrs. Jenkins yn yr Ysbyty yn Aberystwyth, ac wedi bod dan weithred law-feddygol a chredwyd ei bod ar wellhad. Ond yn ddisymwth dechreuodd besychu a bu farw ymhen ychydig eiliadau. Nid oedd arni arwyddion henaint, ac yr oedd yn fyw ei meddwl a'i hysbryd, yn heini o symudiad ac yn graff ei hamgyffrediad. Ni fwytaodd fara seguryd, bu'n llafurus iawn hyd y diwedd. Meddai

ar allu meddwl cryf, a gwnaeth ddefnydd da o'r gallu hwn. Ymhyfrydai mewn darllen llenyddiaeth, yn arbennig un o natur grefyddol, a chan ei bod wedi cael ei bendithio a chof da yr oedd yn neillduol o ddiddorol yn ei chwmni. Ni byddai neb yn hir yn ei chymdeithas cyn gweld ei bod o duedd grefyddol. Amlygodd hynny yn ei ffyddlondeb gyda'r achos yng Nghapel-y-Groes. Yr oedd yn bwyllog ac yn glir ei gwelediad, fel yr oedd ei barn ar faterion eglwys yn rhesymol a chywir. Mae eglwys Capel-y-Groes wedi colli un o'i aelodau gorau. Yfodd o gwpan chwerw bywyd. Collodd ei phriod flynyddoedd yn ôl. Wedi hynny collodd ei hunig ferch, yr hon oedd yn briod, a gwelodd gartref ei merch yn cael ei chwalu oblegid i briod honno farw'n ieuanc. Hefyd collodd ei hunig chwaer, sef Mrs. Jenkin Jones, Frongelyn, Cribyn ; ac ychydig fisoedd yn ôl collodd ei hunig frawd, sef Mr. David Thomas, Llysfaenisaf. Bu i'w ffydd olau, gref, ei dal yn wyneb y profedigaethau hyn, a gwelwyd hi yn mwynhau bywyd drachefn. Fe'i claddwyd yng nghladdfa'r teulu yng Nghapel-y-Groes. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a chymerwyd rhan gan y Parchn. J. Islan Jones ; T. O. Williams ; Dewi Jones, Silian ; S. Morgan, Llanwenog a Ben Davies, Llanarth. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Margaret Lewis, Penlan. Gadawodd fab ac ŵyr, a neiaint a nythoedd a pherthnasau eraill mewn galar. [Yr oedd yn un o roddwyr y te mawr yng Nghapel-y-Groes yn ddiweddar. Gadawyd ei henw allan gan ein gohebydd trwy amryfusedd.—*Gol.*].

Nodion yr Eglwysi.

LLWYDDIANT MEDDYG.—Apwyntiwyd Dr. J. M. Bowen, M.R.C.O.G., mab y Parch. a Mrs. Bowen, Alltyplaca yn '*consultant obstetrician and gynaecologist*' dros Ysbytai Bwrdd llywodraethol Ysbytai Newport a dwyrain Mynwy, Gogledd Mynwy a Rhymni a Dyffrynnoedd Sirhowy.

LLUNDAIN.—Da gennym groesawu rhai aelodau newydd i'n plith—teulu o Aberystwyth a theulu o Gaeronnen. Blin gennym golli eraill a rhaid enwi dwy a fu'n arbennig o ffyddlon sef Miss Mali Evans a fu'n aelod o'n pwyllgor o'r dechrau, a Miss Mair Davies. Dymunwn hwyl iddynt yn yr hen wlad. Dymuniadau gorau hefyd i'n cyn-ysgrifenyddes, Miss Ray Davies ar ei phriodas. Cydymdeimlwn yn fawr â phlant y diweddar "Cribyn Bach" ar golli eu mam a Mr. Jenkin Morgan ar golli ei frawd (yr annwyl H. H. Morgan, arweinydd y Gân yn y Graig a Gellionnen, ac â Mrs. Jenny Davies ar golli ei wyres fechan. Hiraethwn i gyd hefyd ar ôl yr hen gyfaill y Parch. Dafydd Evans. (Gyda llaw, pleser clywed am hen gawr arall, yr annwyl Dr. Elfed Lewis yn cyrraedd ei 90). Cawsom wasanaethau da o dan arweiniad y Parch. T. L. Jones am y tri mis diwethaf—diolch yn fawr iddo. Y mae Mr. Jenkin Morgan yn dyfal ddysgu'r ychydig o blant sy'n perthyn i'r eglwys i ganu ac adrodd ac edrychwn ymlaen i'w clywed yn y dyfodol agos. Pleser

oedd clywed Miss Dilys Davies yn cymryd rhan yn y gwasanaeth ar "Youth Sunday" a gwybod fod un arall wedi cymryd rhan yn un o'r eglwysi Saesneg yr un dydd. Gobeithio y cawn lawer mwy oddi wrth ein pobl ifainc yn y dyfodol.

LLWYNRHYDOWEN.—Un gâs yw'r Flu, ac weithiau gall fod yn ddigon angharedig. Eleni bu'n achos i mi golli Gwyl Dê flynyddol cynulleidfa ac Ysgol Sul y lle yma nawn Gwener y Groglith. Teimlwn yn flin o'r herwydd gan fod y wledd yn cael ei rhoi gan ddwy o wir ffyddloniaid yr achos, sef Mrs. Jennie Davies, Enfield, ger Llundain, gynt o Clifton Hill, Pontshaen a Miss Anne Davies, Pantmoch. Er fod Mrs. Davies wedi gadael yr ardal ers blynyddau lawer ac er yn ffyddlon iawn gyda'r gwasanaethau Cymraeg yn Llundain—mae'i chalon yn Llwynrhydowen o hyd—nid â blwyddyn heibio nag y bydd hi'n cofio'r achos, tra mae Miss Anne Davies gyda ni o hyd yn un o bileri'r gynulleidfa, yn fedrus a ffyddlon gyda'r canu, yn weithgar gyda 'Urdd y Chwiorydd' ac hyd y gall yn ffyddlon yn yr Ysgol Sul. Os methais i droi i fyny deallaf fod y wledd yn bopeth allesid ei ddymuno ; digon o amrywiaeth ar y byrddau ; cwmni cryf wedi dod ynghyd a hwyl fawr drwy'r amser. Cafwyd ychydig itemau o adrodd a chanu gan y plant, ac ar ran Pwyllgor yr Ysgol Sul cyflwynodd Mr. Elwyn Davies, Myfyriwr, nifer luosog o lyfrau gwobr i'r plant am eu cysondeb yn mynychu'r Ysgol Sul. 'Roedd un o'r merched wedi ei chadw'n ddifwlch am bedair mlynedd—un arall wedi ei chadw'n ddifwlch am yr ail dro. Diolchwyd hefyd yn gynnes iawn i roddwyr y wledd. Anrhegodd Miss Anne Davies, Pantmoch, James Gwynfor Jones, Heulwen a medal arian am gadw'r ysgol yn gyson am 11 mlynedd.

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd cwrdd blynyddol y Capel bach y Sul cyntaf o Fawrth ar ôl gwasanaeth y bore. Llywyddwyd gan Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. 'Roedd cynulliad gweddol yn bresennol. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd eu hadroddiadau am 1949, ac yr oedd eiddo'r olaf yn ffafriol iawn. Yn anffodus nid oedd yng ngallu'r blaenaf i roi adroddiad llawn mor ffafriol. Gyda ni, fel ymhob sefydliad daionus arall, nid yw pob aelod lawn mor ffyddlon ag y gallasai fod. Er hynny i gyd cedwir y drws yn agored bron bob Sul o'r flwyddyn. Ail-etholwyd y cwbl o'r swyddogion, a dewiswyd Miss Getta Jones a Mrs. W. S. Jones yn gyd-organyddesau am 1950. Bu Anne y Felin, Cwrtnewydd yn canu'r Organ inni yn weddol reolaidd y misoedd diwethaf yma ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddi.

YR YMOFYNNYDD.—Yr wyf newydd dreulio dau ddiwrnod cyfan ar ei hyd i ail sgrifennu rhan helaeth o'r YMOFYNNYDD, nid am fod eisiau cywiro dim, ond am fod gohebwyr yn defnyddio rhyw dameidiau bach anhylaw o bapur. A gaf i ofyn yn garedig er mwyn yr argraffwyr a minnau am i chwi ddefnyddio papur o faint cwarto neu ffwlscap i arbed llafur ofer. Yn ail, carwn gael ateb oddi wrth y sefydliadau hynny y bûm yn gohebu a hwy ynglŷn ag *adverts* ; bydd yn bleser gennyf roddi telerau hysbysebu i'r

neb a'i mynno. Sylwer bod y ddau YMOFYNNYDD diwethaf yn cynnwys pedair tudalen yn fwy, ac er mwyn cadw at hyn yr wyf yn danfon copi ychwanegol i bob eglwys ar ben yr hanner blwyddyn. Chwiliwch am brynnwr iddo !

Y DIWEDDAR DAFYDD EVANS.—Aeth y Rhifyn Dathlu yn Rhifyn Coffa, gwaetha'r modd, ac am hynny nid awn i ail-adrodd ffeithiau hysbys.

"Rhowch i mi eich teyrnged hedd
Tra byddwy'r ochr hyn i'r bedd".

CYFRIFON CRONFA'R PARCH. DAVID EVANS.—Derbyniwyd yn agos i bedwar cant o danysgrifiadau, a'r cyfanswm yn £292 6s. 0d.

TREULIAU.	£	s.	d.
Rhoddwyd i Mr. Evans, Chwefror y bymthegfed	280	0	0
Cost printio (Gomerian Press)	0	15	0
Costau'r Trysorydd	0	15	0
Costau'r Ysgrifennydd	0	11	0
Cerbyd ddydd y Dathlu	0	5	0
Gweddill yn llaw'r Trysorydd	10	0	0
Cyfanswm	£292	6	0

Bwriadai'r Pwyllgor argraffu a dosbarthu rhestr y tanysgrifwyr, ond fe gafwyd allan y buasai'r draul o wneuthur hynny yn fwy na'r deg punt a oedd mewn llaw ; felly, penderfynwyd mai gwell fuasai defnyddio'r gweddill mewn rhyw ffordd arall i goffa Mr. Evans. Siom fawr i'r Pwyllgor yw ei farwolaeth sydyn ar Fawrth y 26ain. Prif amcan y dysteb oedd ceisio sicrhau iddo ychydig yn ychwaneg o gysuron bywyd yn ei hen ddyddiau. Gellir dweud yn awr, heb ei dramgwyddo, i Mr. Evans fethu cymryd mantais o gynllun y Gymdeithas Undodaidd i sicrhau blwydd-dâl i weinidogion yn eu henaint (yr oedd yn ofynnol iddo wneuthur hynny cyn pasio'r deugain oed). Felly, pan ddaeth oedran ymddeol, nid oedd gan Mr. Evans hawl i flwydd-dâl ; yr oedd hynny yn gryn golled ariannol iddo, ond bu'r Gymdeithas yn ddigon caredig i leihau ei golled, trwy roddi iddo rodd flynyddol. Bu'r angladd yng Nghapelygroes, ddydd Iau, y 30ain o Fawrth. Cymrwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. J. Islan Jones, M.A. a Lewis Williams, ac yn y Capel gan y Parchn. T. O. Williams, M.A., E. O. Jenkins a S. E. Bowen a'r Parch. T. O. Williams eto ar lan y bedd. Daeth torf luosog ynghyd i Gapelygroes i ddangos parch i un a fu'n ddylanwad bendithiol mewn cymdogaeth helaeth, ac a gofir yn hir, gyda theimladau diolchgar, gwresog a pharchus, gan y sawl a gafodd y fraint o'i adnabod yn dda. Bwriadaf roddi bywgraffiad byr ohono yn y rhifyn nesaf.—J. ISLAN JONES.

(*Oherwydd diffyg gofod, bu raid cadw Marwgof, Barddoniaeth, &c. hyd y rhifyn nesaf.*)

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.